

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Griffith Jones, Heol yr Orsaf, Sanclêr, SA33 4BT o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg a hynny o 1 Medi 2020 ymlaen.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.sirgar.llyw.cymru

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **22 Hydref 2019**, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Gareth Morgans, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk

Llofnod: Gareth Morgans

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin**

Dyddiedig: 24 Medi 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

1. Bwriad yr Awdurdod yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Griffith Jones, o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Mae dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru "Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" yn nodi disgrifiadau a chategoriâu o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

https://llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg?_ga=2.47490343.1806347503.1568798718-147350442.1568113172

2. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Bydd y newid arfaethedig yn digwydd o 1 Medi 2020 ymlaen a bydd ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol o'r dyddiad hwn ymlaen.

CARMARTHENSHERE COUNTY COUNCIL

County Hall, Carmarthen, SA31 1JP

Notice is hereby given in accordance with Section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose to change the nature of Foundation Phase provision at Ysgol Griffith Jones, Station Road, St. Clears SA33 4BT from Dual Stream to Welsh Medium from 1 September 2020.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposers responses and the views of Estyn is available on www.carmarthenshire.gov.wales

Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by **22 October 2019**, any person may object to this proposal. Objections should be sent to Mr Gareth Morgans, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to DECMEP@carmarthenshire.gov.uk

Signed: Gareth Morgans

**Director of Education and Children's Services
For Carmarthenshire County Council**

Dated: 24 September 2019

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. It is the Authority's intention to change the nature of Foundation Phase provision at Ysgol Griffith Jones from Dual Stream to Welsh Medium.

The Welsh Government information document "Defining schools according to Welsh medium" sets out descriptions and categories of schools according to the amount of Welsh used in teaching and learning. The document is available on the Welsh Government website at the following address:

<https://gov.wales/defining-schools-according-welsh-medium-provision>

2. It is important to note that there will be no change to the nature of Foundation Phase provision for pupils currently attending the school. The proposed change will take place from 1 September 2020 and will only affect pupils starting at the school from this date onwards.